Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 10 Tachwedd 2022 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| D H Hopkins | Cyngor Abertawe |
| Nia Jenkins | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Paul Miller | Cyngor Sir Benfro |
| Darren Price | Cyngor Sir Gar |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Stephen Baldwin | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe |
| Emma Woollett | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Oonagh Gavigan | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Matthew Holder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Steven Jones | Cyfarwyddwr Datblygu (Cyngor Sir Benfro) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr Dros Dro (Cyngor Abertawe) |
| Nicola Pearce | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Phil Ryder | Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe |
| Debbie Smith | Dirprwy Swyddog Monitro (Cyngor Abertawe) |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |
| Ian Williams | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**
Y Cynghorydd(wyr) Steve Hunt (Cyngor Castell-nedd Port Talbot), David Simpson (Cyngor Sir Benfro) a/ac R C Stewart (Cyngor Abertawe
)
Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant) a/ac Steve Wilks (Prifysgol Abertawe)
William Bramble (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Penfro)), Karen Jones (Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)) a/ac Tracey Meredith (Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe))

---

**24 Ethol Cadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas Ranbarth Bae Abertawe.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd Rob Stewart yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Yn absenoldeb y Cynghorydd Rob Stewart, pleidleisiwyd i ethol Cadeirydd Dros Dro.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd Darren Price yn Gadeirydd Dros Dro ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

**25 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**26 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

**27 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**28 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**29 Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2022-23.**

Cyflwynodd Matthew Holder (Dinas-ranbarth Bae Abertawe - Pennaeth Archwilio Mewnol) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol 2022-2023.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol 2022-2023 fel y’i hamlinellwyd yn yr adroddiad.

**30 Siarter Archwilio Mewnol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Matthew Holder (Dinas-ranbarth Bae Abertawe - Pennaeth Archwilio Mewnol) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Siarter Archwilio Mewnol Ddrafft ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol Ddrafft.

## 31 Y Diweddaraf am Gartrefi fel Gorsafoedd Pwer. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd Oonagh Gavigan (Rheolwr y Prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer) adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu cynnydd y prosiect.

## 32 Adroddiad Monitro Ariannol 2022/23 - Sefyllfa Alldro Dros Dro ar gyfer Chwarter 2.

Cyflwynodd Chris Moore (Dinas-ranbarth Bae Abertawe - Swyddog Adran 151) adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am sefyllfa ariannol ddiweddaraf Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r adroddiad diweddaru am Fonitro Ariannol.

## 33 Adroddiad Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Amanda Halfhide (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn amlinellu'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

**Penderfynwyd** nodi'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

## 34 Proses Datblygu Achos Busnes Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Ian Williams (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Proses Ddatblygu Achos Busnes Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer diweddaru a datblygu'r achosion busnes.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Proses Datblygu a Diweddaru Achos Busnes Bargen Ddinesig Bae Abertawe fel y'i hatodir i'r adroddiad.

## 35 Fframwaith Sicrwydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Ian Williams (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Fframwaith Sicrwydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n manylu ar y trefniadau sicrwydd ar gyfer y Portffolio a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Fframwaith Sicrwydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe fel y'i hamlinellwyd yn yr adroddiad a'r cylch gorchwyl cysylltiedig.

## 36 Trefniadau Sicrwydd Portffolio 'Gateway'.

Cyflwynodd Ian Williams (dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn amlinellu canlyniad Adolygiad Portffolio Gateway ac roedd yn gofyn i'r aelodau gytuno ar y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad.

**Penderfynwyd** nodi canlyniad Adolygiad Portffolio Gateway a chymeradwyo'r cynllun gweithredu a atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad.

**37 Blaengynllun Gwaith y Cydbwyllgor.**

Cyflwynodd Amanda Burns (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn amlinellu'r Flaenraglen Waith.

**Penderfynwyd** cytuno ar y Flaenraglen Waith.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.17 am

**Cadeirydd**